**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

28 Hydref 2024

Annwyl Mike,

Diolch ichi am eich llythyr yn fy ngwahodd i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried cysylltiadau rhynglywodraethol, Cymru ac Ewrop, a'r Rhaglen Ddeddfwriaethol.

Yn ddiweddarach y tymor hwn, byddaf yn mynychu'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, lle y byddaf wrth gwrs yn falch iawn o roi tystiolaeth ar unrhyw fater sy'n berthnasol i arfer swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

Caf ar ddeall fod y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni yn ymddangos gerbron eich pwyllgor ar 25 Tachwedd. O gofio eu rolau a'u cyfrifoldebau, rwyf yn hyderus y byddant mewn sefyllfa dda i ateb cwestiynau ynghylch gweithgareddau Llywodraeth Cymru sy'n dod o fewn cylch gwaith eich pwyllgor.

Yn gywir,

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.